## Newyddion Diweddaraf Data Cymru – WSLC Mehefin 2022

### Dadansoddi a dirnad

Rydym wedi cyhoeddi cyfres o ddangosfyrddau yn ddiweddar i helpu defnyddwyr i ddeall mwy am rai pynciau penodol, gan gynnwys:

**Llesiant Cymru**

Mae'r dangosfwrdd hwn yn dangos y cynnydd tuag at y saith nod llesiant ar lefel leol, wedi ei fesur yn ôl y dangosyddion llesiant cenedlaethol.

Mae hwn ar gael ar ein gwefan.

**'Golwg ar dlodi'**

Nod y dangosfwrdd hwn yw helpu defnyddwyr i ddeall tlodi yn eu hardal leol nhw. Mae'n dod â data ynghyd o amrywiaeth o ffynonellau ar draws amrediad o themâu, gan gynnwys incwm a chyflogaeth, iechyd, cydlyniant cymunedol a'r amgylchedd ffisegol.

Mae hwn ar gael ar ein gwefan.

**Proffiliau ardal leol**

Rydym wrthi'n cynhyrchu cyfres o broffiliau ardal leol rhyngweithiol a fydd yn caniatáu i chi ddeall mwy am yr ardaloedd lleol yn eich awdurdod lleol chi. Ein gobaith yw y bydd y rhain o ddiddordeb arbennig i'n cydweithwyr sy'n gynghorwyr ledled Cymru a fydd, yn y pen draw, yn gallu chwilio yn ôl ward i ddeall eu hardaloedd lleol.

Mae ffeiliau chwilio'r Swyddfa Ystadegau Gwladol rhwng LSOA a'r wardiau diweddaraf ar gael bellach felly mae'r gwaith hwn yn dechrau symud yn ei flaen ar garlam.

Bydd hwn ar gael ar ein gwefan yn ystod y mis neu ddau nesaf.

### A ydy cyfryngau cymdeithasol yn rhoi mewnwelediad i ni? - Peilot cyfryngau cymdeithasol

Mae cyfryngau cymdeithasol o'n cwmpas ym mhobman ond pa mor aml ydyn ni'n defnyddio mewnwelediadau o'r data hwn wrth wneud penderfyniadau? Mae ystyriaethau cost, canfyddiad, a moesegol i'w hystyried wrth gyrchu a defnyddio data cyfryngau cymdeithasol at ddibenion ymchwil a gwneud penderfyniadau. Edrychom ni o'r newydd ar yr ystyriaethau hyn fel rhan o brosiect peilot ynglŷn â chyrchu a defnyddio data cyfryngau cymdeithasol.

Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn bellach ar gael ar ein gwefan yn Gymraeg ac yn Saesneg: LINK

### Rhaglen weminarau 'Hysbysu ac Ysbrydoli'

Rydym ni'n cynnal gweminarau rheolaidd fel rhan o'n rhaglen weminarau 'hysbysu ac ysbrydoli' a gafodd ei lansio'n ddiweddar. Mae dwy brif thema i'r rhaglen, sef:

Data sy'n Hysbysu Mae ein gweminarau **Data/Hysbysu** yn cynnig cyflwyniad lefel uchel i bynciau amrywiol sy'n ymwneud â data, ystadegau ac ymchwil.

Data sy'n Ysbrydoli Mae ein gweminarau **Data/Ysbrydoli** yn dangos enghreifftiau o waith arloesol ac ysbrydoledig rydym ni a/neu gyrff eraill yn ei wneud gyda data.

***Mae gweminarau sydd ar y gweill yn cynnwys:***

- Mesur yr economi gylchol – Hydref
- Deall data perfformiad - 20 Hydref
- Arolwg Ordnans – 3 Tachwedd

I gadw lle, ewch i Tocyn Cymru.

Am fwy o wybodaeth, cymerwch gip ar ein gwefan: https://www.data.cymru/webinars

I fod ymhlith y cyntaf i glywed am sesiynau'r dyfodol, 'cofrestrwch' i'n rhestr bostio 'Hysbysu ac Ysbrydoli'.

Rydym ni bob amser yn chwilio am gynnwys ar gyfer gweminarau. Os ydych chi wedi gweld, wedi gwneud, neu wrthi'n gwneud rhywbeth diddorol, arloesol ac ysbrydoledig gyda data, byddem ni wrth ein bodd i glywed amdano – llwyddiannus neu beidio.

Yn yr un modd, hoffem ni glywed eich awgrymiadau am bynciau data, ystadegau neu ymchwil y dyfodol yr hofffech chi ddysgu mwy amdanyn nhw.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Suzanne Draper.

### Meithrin capasiti - rhaglen hyfforddiant yn yr arfaeth...

Ydych chi'n awyddus i ddysgu mwy am gasglu a defnyddio data? Ydych chi'n gweithio gyda data ac eisiau cael rhagor o werth ohono? Ydych chi'n ystyried ehangu'ch sgiliau?

Rydym ni wedi datblygu cyfres o gyrsiau hyfforddiant a fydd yn eich **cyflwyno** i:

- Ystadegau cryno
- Cyflwyno data
- Dylunio a dadansoddi arolygon
- Cynllunio a chyflwyno grwpiau ffocws.

I gyd-fynd â'r hyfforddiant hwn, byddwn yn cyhoeddi cyfres o arweiniadau yn ogystal.

Cynhaliwn ni 16 o sesiynau am ddim drwy gydol y flwyddyn; un o bob un y chwarter! Y dyddiadau nesaf sydd ar gael yw:

- Ystadegau cryno – 9:30 – 12 – 5 Hydref
- Cyflwyno data – 13:00 - 15:30 – 11 Hydref
- Dylunio a dadansoddi arolygon – 09:30 – 21 Hydref
- Cynllunio a chyflwyno grwpiau ffocws – 13:00 - 15.30 – 27 Hydref

Os hoffech chi drafod eich gofynion chi, cysylltwch â Sam Sullivan.

**Cymunedau Ymarfer**

Mae'n bleser gennym gyhoeddi lansiad y ddwy gyntaf yn ein cyfres o Gymunedau Ymarfer sy'n canolbwyntio ar ddata:

Cymuned Ymarfer PowerBI; a
Chymuned Ymarfer Gwella mynediad i ddata.

Nod y cymunedau hyn yw caniatáu rhannu gwybodaeth yn gadarnhaol ac yn adeiladol ledled sector cyhoeddus Cymru mewn perthynas â phob agwedd ar ddata.

Mae Cymuned Ymarfer PowerBI ar gyfer unigolion sy'n gweithio yn sector cyhoeddus Cymru ac sy'n defnyddio PowerBI i greu a rhannu delweddiadau data, neu sy'n awyddus i wneud hynny. Fel aelod o'r gymuned, byddwch chi'n gallu cysylltu â defnyddwyr eraill PowerBI, rhannu gwybodaeth, gofyn cwestiynau a meithrin sgiliau.

Yn yr un modd, mae'r Gymuned Ymarfer Gwella mynediad i ddata ar gyfer unigolion sy'n gweithio yn sector cyhoeddus Cymru ac sydd am annog a hwyluso mynediad gwell i ddata. Fel aelod o'r gymuned hon, byddwch yn creu cysylltiadau â chydweithwyr o'r un anian er mwyn rhannu, datblygu a hyrwyddo arfer da mewn perthynas â mynediad i ddata a rhannu data.

Felly, os credwch y byddech chi'n elwa o fod yn rhan o'r cymunedau newydd cyffrous hyn, cymerwch gip ar ein tudalen we Cymunedau Ymarfer am fanylion sut mae cymryd rhan.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Suzanne Draper.